Cymraeg Proffesiynol

Uned 3

Morffoffonoleg y Gymraeg:
Y treigladau

Adran Gramadeg

Gorolwg o'r Treigladau

Dosbarthiad

Mae yna naw llythyren sy'n treiglo yn y Gymraeg:

p, t, c, b, d, g

Rhaid imi beidio â bod yn hwyr i'r dosbarth!

Dosberthir y gwahanol fathau o dreigladau yn ôl y newid mewn ansawdd sy'n digwydd iddynt:

Llythyren Gysefin	Treiglad Meddal	Treiglad Trwynol	Treiglad Llaes
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	*yn diflannu*	ng	
m	f		
ll	l		
rh	r		

***** PWYSIG *****

Mae treigladau'n digwydd oddi mewn i eiriau hefyd, e.e. mae'r rhagddodiad **cyd-** yn achosi'r treiglad meddal mewn geiriau fel **cydbwyso** (< **cyd + pwyso**) a **chydlynu** (**cyd + glynu**). Dim ond treigladau sy'n digwydd ar ddechrau gair a drafodir yma.

1. Y Treiglad Trwynol

Dyma'r treiglad lleiaf cyffredin yn y Gymraeg. Mae'n digwydd ar ôl 'fy', 'yn', a 'blynedd' ar ôl y rhifau 'pum', 'saith', 'wyth', 'naw', 'deg', 'ugain', 'can' (a rhifau cyfansawdd sy'n cynnwys y rhifau hyn), e.e.

fy mhapur	<	'papur'
yng Nghymru	<	'Cymru'
pum mlynedd	<	'blynedd'

2. Y Treiglad Llaes

Mae'r treiglad llaes yn digwydd ar ôl y cysyllteiriau 'a' a 'gyda'; yr arddodiaid 'â' a 'tua'; y rhagenw blaen 'ei' 'her'; y goleddfydd 'tra'; y geirynnau rhagferfol negyddol 'ni', 'na' ac 'oni'; a rhifau 'tri' a 'chwe' (gwr. a ben.), e.e.

afal a chaws	<	'caws'
cyfuwch â Phumlumon	<	'Pumlumon'
gyda chwmni	<	'cwmni'
torri â chyllell	<	'cyllell'
tua chant o bobl	<	'cant'
ei theulu	<	'teulu'
tra charedig	<	'caredig'
Ni chlywais y larwm.	<	'clywed'
Clywais na thalwyd y bil.	<	'talu'
Oni chynigir gwell telerau?	<	'colli'
tri theulu	<	'teulu'
chwe chi / chath	<	'ci / cath'

3. Y Treiglad Meddal

Gellir rhannu'r treiglad meddal yn ddau ddosbarth:

a) treigladau a achosir gan air sy'n rhagflaenu

b) treigladau a achosir gan eu sefyllfa mewn brawddeg

3.1 Treigladau a achosir gan y gair sy'n rhagflaenu

i) Ar ôl yr arddodiaid canlynol:
am, ar, at, dan, dros, drwy, gan, heb, hyd, i, o, wrth

e.e.

am dri o'r gloch	(< 'tri')
ar ben y bryn	(< 'pen')
at bobl y cwm	(< 'pobl')
dan gwmwl	(< 'cwmwl')
dros Gymru	(< 'Cymru')
gan gynnwys	(< 'cynnwys')
heb fai heb ei eni	(< 'bai')
hyd ddiwedd y ganrif	(< 'diwedd')
i lawr y bryn	(< 'llawr')
o Gymru	(< 'Cymru')
trwy deg neu hagr	(< 'teg')
wrth droed y mynydd	(< 'troed')

Eithriad: *am byth*

Yn ogystal, mae treiglad meddal ar ôl arddodiaid cyfansawdd sy'n cynnwys yr arddodiaid uchod fel ail elfen, e.e.

hyd at, tuag at, oddi wrth, oddi ar, a.y.b.

ii) Ar ôl 'yn traethiadol' ac 'yn adferfol':

Yn Traethiadol

Mae'r tiwtor yn dda iawn. (< **da** – ansoddair)
Mae'r tiwtor yn ddyn. (< **dyn** – enw)

Yn Adferfol

Aeth y trên yn gyflym. (< **cyflym** – *yn gyflym* [adferfol])

***** PWYSIG *****

1. Nid yw **ll** na **rh** yn treiglo ar ôl 'yn traethiadol' ac 'yn adferfol', e.e.

   Roedd y cyfarfod yn llawn.
   Mae'r cwrs yn rhad.

2. Nid oes treiglad meddwl ar ôl **yn** (nac **wedi** chwaith) pan fo'n nodi agwedd ar amser, e.e.

   Mae'r plant yn dysgu. 'The children learn. / The children are learning.' (presennol amherffaith)
   Mae'r plant wedi dysgu. 'The children have learnt.' (presennol perffaith)

Eithriad: Nid yw'r ansoddair 'braf' yn treiglo ar ôl 'yn'.

iii) Enw benywaidd unigol ar ôl y fannod (ac eithrio 'll' neu 'rh'):

y babell; y dorf; y gath; y fraich; y ddalen; y wraig; y fam
(< 'pabell'; 'torf'; 'cath'; 'braich'; 'dalen'; 'gwraig'; 'mam')

Eithriadau: *y gêm; y gât; y gôl.*

iv) Ansoddair sy'n dilyn enw benywaidd unigol (gan gynnwys 'll' a 'rh'):

y babell fawr; y gath ddu; y lleuad lawn (< 'mawr'; 'du'; 'llawn')

Eithriadau: *nos da; yr wythnos diwethaf; ewyllys da*

v) Ar ôl y cysyllteiriau 'pan' a 'neu':

Pan orffennwyd y gwaith, roedd pawb yn hapus. (< 'cyrraedd')
Ydych yn yfed coffi gwyn neu goffi du? (< 'coffi')

***** PWYSIG *****

Nid yw **neu** yn achosi treiglad pan ddaw o flaen ffurfiau berfol:

Brysiwch neu byddwn yn hwyr.

vi) Ar ôl y rhagenw perthynol 'a':

Ffoniodd y myfyriwr a gollodd y dosbarth. (Goddrych y Cymal)

Ffoniodd y tiwtor y myfyriwr a gollodd y dosbarth. (Gwrthrych y Cymal)

***** PWYSIG *****

Nid y rhagenwau gofynnol 'pwy' a 'beth' sy'n achosi'r treiglad meddal. Ond y geiryn perthynol **a** (sy'n cael ei hepgor ar lafar fel arfer) sy'n eu dilyn, e.e.

Pwy (a) dorrodd y taflunydd? (< 'torri')
Beth (a) ddigwyddodd nesaf? (< 'digwydd')

vii) Ar ôl y geiryn rhagferfol ofynnol 'a':

A fydd rhywun ar gael heno? (< 'bydd')
A glywsoch y newyddion? (< 'clywed')
A welaist y papur heddiw? (< 'gweld)'

viii) Ar ôl y geiryn gofynnol 'pa':

Pa gwestiwn a drafodir nesaf? (< 'cwestiwn')
Pa lyfr a ddewiswyd? (< 'llyfr')

***** PWYSIG *****

Nid yw 'mor' yn treiglo ar ôl 'pa', e.e.

Pa mor bwysig yw gwybod am y treigladau?

ix) Ar ôl y geirynnau rhagferfol 'fe' a 'mi':

Fe gollais y bws.
Mi welem y ddinas yn y pellter.

x) Ar ôl y rhagenw blaen 3 pers. un. gwr. 'ei':

ei baent; ei gar; ei docyn; ei frawd; ei wraig; ei ddillad; ei fam; ei law; ei raw
(< 'paent'; 'car'; 'tocyn'; 'brawd'; 'gwraig'; 'dillad'; 'mam'; 'llaw'; 'rhaw')

xi) Ar ôl y rhagenw blaen 'dy', a'r rhagenw mewnol (genidol a gwrthrychol) ''th':

dy blant; dy gar dy frawd;	(<'plant'; 'brawd'; 'car')	(rh. blaen)
dy dad a'th fam	(< 'tad'; 'mam')	(rh. mewnol genidol)
Fe'th welais yn y dref ddoe.	(< 'gweld')	(rh.mewnol gwrthrychol)

xii) Ar ôl y geirynnau rhagferfol negyddol 'ni' a 'na' a'r geiryn rhagferfol gofynnol negyddol 'oni' (ac eithrio 'p', 't' a 'c' sy'n treiglo'n llaes):

Ni welais yr adroddiad. (< 'gweld')
Mae hi'n debyg na chlywodd. (< 'bwyta')
Oni ddylem ateb y llythyr? (< 'dylem')

1. Mae ffurfiau personol ‘bod’ sy’n dechrau â **b** yn gallu gwrthsefyll treiglo:

   Ni bu / fu neb yn sâl.
   Mae’n debyg na bydd / fydd y plant am fynd.

2. Nid yw’r ffurf **oni bai** ‘where it not for the fact’ byth yn treiglo:

   Oni bai am y ddamwain, byddwn yn dal i chwarae pêl-droed.

xiii) Ar ôl ansoddeiriau sy’n rhagflaenu enwau, e.e.
gwahanol bobl, hen dŷ, unig blentyn (< ‘tŷ’; ‘pobl’; ‘plentyn’)

xiv) Ar ôl y goleddfwyr: ‘rhy’; ‘lled’; ‘gweddol’; ‘go’:
rhy wan; lled dda; gweddol gyfforddus; go arw
(< ‘gwan’; ‘da’; ‘cyfforddus’; ‘garw’)

Pan fydd adferf yn gweithredu fel goleddfydd, ni cheir treiglad, e.e.

digon caled; eithaf da

xv) Ar ôl y rhifolion ‘un’ (benywaidd) ac eithrio ‘ll’ a ‘rh’; ‘dau’ a ‘dwy’:
un ferch; dau fab; dwy fenyw (< ‘merch’; ‘mab’; ‘menyw’)

xvi) Ar ôl ‘ail’ a threfnolion benywaidd:
yr ail fws; yr ail drên; y drydedd blismones; y bedwaredd gawod
(< ‘bws’; ‘trên’; ‘plismones’; ‘cawod’)

xvii) Ar ôl yr adferfau lleoliadol ‘dyma’, ‘dyna’ a ‘dacw’:
Dyma dŷ fy rhieni. (< ‘tŷ’)
Dyna bert yw Eifionydd. (< ‘pert’)
Dacw gopa Cader Idris. (< ‘copa’)

xviii) Ar ôl ‘mor’, a ‘cyn’ (o flaen ffurf gyfartal ansoddair) ac eithrio ‘ll’ a ‘rh’:
mor wyn â’r galchen (< ‘gwyn’)
cyn ddued â’r frân (< ‘du’)

3.2 Treigladau a achosir gan sefyllfa ramadegol

i) Gwrthrych uniongyrchol ffurf bersonol y ferf:

Berf	Goddrych	Gwrthrych	Adferfol
Clywodd	Rhys	gân (< **ceffyl**)	Ar y radio

ii) Y cyflwr cyfarchol:
Helo bobl! (< ‘pobl’)
Byddwch dawel blant! (< ‘plant’)
Foneddigion a boneddigesau … (< ‘boneddigion’)

iii) Ymadroddion adferfol:

Aethom i Gaerdydd ddydd Sadwrn. (< 'dydd')
Rydym yn cynhyrchu adroddiad hunanasesu bob blwyddyn. (< 'pob')

Weithiau, mae'r ffurf dreigledig wedi ymsefydlu'n ymadrodd adferfol o'r iawn ryw, e.e.

ddoe	(< 'doe')
weithiau	(< 'gweithiau' [times])
bob dydd; bob amser	(< 'pob')
drachefn	(< 'tra' + 'cefn')

Gall ffurfiau berfol weithredu fel ymadroddion adferfol, ac felly, maent yn treiglo, e.e.

goeliaf i	'I believe'	('gwlei' ar lafar yng Ngheredigion)
dybiwn i	'I would think'	
ddywedwn i	'I would say'	

iv) Torymadrodd:

Lle arferol adferf yw ar ddiwedd brawddeg, e.e.

Berf	Goddrych	Adferf
Roedd	llawer o bobl	yno

Pan ddaw yng nghanol y frawddeg, mae'n achosi treiglad meddal:

Berf	Adferf	Goddrych
Roedd	yno	lawer o bobl

Hyn sy'n gyfrifol am y treiglad meddal sy'n dilyn yr ymadroddion adferfol sydd erbyn hyn wedi ymsefydlu ynghanol y frawddeg:

Mae gyda fi <u>dd</u>igon o amser. (< *Mae digon o amser gyda fi.*)
Rhaid i Gymru <u>b</u>eidio â cholli'r bêl.

Er bod yr enghraifft ddiwethaf yn adferfol, nid oes modd symud 'i Gymru' i ddiwedd y frawddeg bellach. Erbyn hyn, 'Cymru' yw goddrych rhesymegol y frawddeg.

Ymarferion

Llenwch y bylchau (a newid ffurf y geiriau os oes rhaid):

1. Mae fy _____ wedi ymddeol. (father)

2. Cefais fy _____ yn _____. (born), (Cardiff)

3. Bu ei (his) _____ yn y fyddin am saith _____.	(brother), (years)
4. Rhaid i _____ _____ yn _____.	(people), (be), (careful)
5. Fe'th _____ais yn y pellter.	(see)
6. Beth _____odd yn ystod y _____.	(happen), (game)
7. Siglais _____ â _____ y tîm buddugol.	(hand), (captain)
8. Beth a _____'n digwydd petai'r dosbarth yn gorffen?	(would)
9. Mae gan y plant _____ o _____.	(lot), (toys)
10. Byddaf yn darllen pennod _____ dydd.	(every)
11. Roedd "Helo _____" yn _____ radio _____iawn.	(people), (programme), (popular)
12. Mae fy _____ yn _____ ym _____ Cymru.	(cousin), (student), (university)

Ysgrifennwch y ffurf briodol ar 'blynedd' (gan gofio'r treiglad os oes eisiau) ar ôl y rhifau canlynol:

1. 3 _____	5. 12 _____	9. 7 _____
2. 20 _____	6. 31 _____	10. 17 _____
3. 6 _____	7. 36 _____	11. 50 _____
4. 18 _____	8. 19 _____	12. 21 _____

Ailysgrifennwch y brawddegau canlynol trwy roi'r adferfol (wedi ei thanlinellu) yn syth ar ôl y ferf, e.e.

Mae digon o arian <u>gennyf</u>. > *Mae <u>gennyf</u> ddigon o arian.*

1. Mae cymaint o waith i'w wneud <u>bob dydd</u>.

_____

2. Mae llawer o ddyled <u>gan y cwmni</u>.

_____

3. Mae cryn dipyn o arian ar Siôn i'r banc.

_____

4. Bydd croeso ganddi hi yma bob amser.

_____

5. Mae hiraeth arnaf am yr hen le weithiau.

_____

Cyfieithwch:

1. my pensil _____
2. his worksheet _____
3. their names _____
4. my reference _____
5. her presentation _____
6. their school _____
7. my homework _____
8. your team (*cyf.*) _____
9. my lunch _____
10. his breakfast _____
11. his decision _____
12. her third assignment _____
13. My father's car _____
14. his brother's caravan _____
15. her team's quarterly report _____
16. my wife's employer _____
17. Someone has to go. _____
18. I don't mind driving. _____
19. We heard people talking. _____
20. You had better see. _____

21. We would prefer to walk. _____

22. Hello everybody! _____

Adran Cyfuno Sgiliau

Cyfieithwch y llythyr canlynol yn cyflwyno eich cwmni.

Ms Mererid Lloyd
Director of Public Relations
Peerless Plastics Ltd
Unit 4,
Enterprise Park
Swansea
SA1 7LT

Dear Ms Lloyd,

It was a pleasure meeting you at last week's Round Table event. I liked your synopsis of the history of Peerless Plastics Ltd over the past 50 years. Clearly, your company has a rich heritage and tradition. At the same time, the company has been led by people with vision and imagination who have succeeded to ensure the company could remain competitive.

Final Edition Publications is a specialist publisher that focuses on publications including annual reports, and corporate histories. We have been in business for over 15 years, and during that time have grown from a two-person business, to a corporate publisher with over 100 employees. We have worked with over a dozen companies to produce annual publications on their behalf.

Peerless Plastic's 50th anniversary would be an ideal opportunity to produce a corporate history to celebrate your company's first half century.

I would very much like to meet with you and show you some of the corporate work we have done, and brief you on our services.

Please call me on 01790 543276 so that we can discuss this further. If I don't hear from you by the end of next week I will follow up with you and see if we can set up a meeting at your convenience.

Yours sincerely,

Cen Protheroe
Manager
Final Edition Publications

Rwy'n dwlu ar y treiglad meddal!

Ymarfer Darllen a Deall

Darllenwch y darn canlynol ac ateb y cwestiynau sy'n dilyn.

A allai'r cerddor Jimi Hendrix fod wedi recordio 'Hen Wlad Fy Nhadau'? Cafodd tâp ei ddarganfod mewn hen gist te yn Llundain, ac arno'r anthem. Gallai Hendrix fod wedi ei recordio ychydig o ddyddiau cyn iddo farw. Ond does dim tystiolaeth gadarn.

Dave Chapman a ddaeth o hyd i'r gist ar ôl prynu hen stiwdio recordio Crouch Hill. Mae'r gerddoriaeth ar y tapiau yn dyddio'n ôl i'r 1960au a'r 1970au. Dros y blynyddoedd, mae e wedi bod yn gwrando ar y gerddoriaeth. Ar ddiwedd un tâp – a'r unig label arno yn dweud y *New Flames*, y 10fed o Fedi, 1970, roedd fersiwn o 'Hen Wlad Fy Nhadau' yn cael ei chwarae ar gitâr drydan.

Roedd Mr Chapman wedi dweud ei bod hi'n swnio'n debyg i'r hyn y byddai Hendrix yn ei wneud. Ar ôl ymchwilio i hanes y *New Flames*, cafodd wybod bod chwaraewr bas y band, sef Viv Williams, yn hanu o Grucywel, Powys. Bu farw Hendrix yn Llundain ar y 18fed o Fedi, 1970, ac felly, gallai fod wedi bod yn Llundain pan wnaeth New Flames y recordiad. Cyn i Mr Chapman farw yn 2005, roedd wedi rhoi'r recordiad i gyfaill sydd wedi bod yn ceisio canfod pwy yn union oedd y gitarydd. Ond dywedodd y cerddor Rhys Mwyn na allai gredu mai Hendrix oedd yn gyfrifol. 'Mae'n swnio yn yr un arddull â Hendrix – a ddylanwadodd ar Tich Gwilym – ond dyw e ddim yn fersiwn da iawn. Dw i'n amheus iawn o'r syniad hwn, ac yn amau pam ei fod wedi gwneud hyn. Mae ansawdd y chwarae mor ddideimlad a digyfeiriad, a dw i'n amau a fyddai Hendrix wedi chwarae hyn. Ond pam byddai Hendrix yn recordio 'Hen Wlad Fy Nhadau' – i ba ddiben? Mae 'na berygl i ni fel Cymry gysylltu Hendrix â'n hanthem ni.'

Cymru'r Byd

Cwestiynau

1. Pwy oedd Jimi Hendrix?

2. Beth sy'n awgrymu y gallai Jimi Hendrix fod wedi recordio 'Hen Wlad Fy hadau'?

3. Beth yw cysylltiad Dave Chapman â'r digwyddiad?

4. Beth a wnaeth y New Flames?

5. Beth oedd cysylltiad y New Flames â Chymru?

6. Beth wnaeth Dave Chapman cyn iddo farw?

7. Pam mae Rhys Mwyn yn amau mai Jimi Hendrix sydd ar y tâp?

8. Beth mae Rhys Mwyn yn ofni y bydd Cymry yn ei wneud?

Pwnc Trafod

Mae delfrydau ymddwyn (role models) yn bwysig iawn.

Nodyn i'r tiwtor

Rhannu'r dosbarth yn grwpiau o bedwar. Pob grŵp i feddwl am bum dadl o blaid y gosodiad a phum dadl yn ei erbyn. Cynnal sesiwn adrodd yn ôl. Cynnal trafodaeth i flaenoriaethau'r dadleuon o blaid ac yn erbyn.

Gwaith Cartref

Lluniwch lythyr yn mynegi diddordeb yn seiliedig ar y patrwm yn yr Adran Cyfuno Sgiliau.